
Diweddariad gan y Tîm Costau Byw – Mehefin 2024

Gweld yn y porwr




# Ymuno â ni ar gyfer ein gweminar nesaf

ARCHEBWCH YMA

## Arweiniad i Drafnidiaeth Gymunedo




Cynhelir ein gweminar nesaf **'Arweiniad i Drafnidiaeth Gymunedol'**
ar **ddydd Mawrth 18fed Mehefin 2024 2.00-3.30pm.**
Cawn gwmni siaradwyr o'r Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol a Thrafnidiaeth Gymunedol Dolen Teifi. Byddwn hefyd yn clywed astudiaethau enghreifftiol gan gyngor fel eich un chi sydd wedi chwarae rhan mewn mentrau trafnidiaeth llwyddiannus

SICRHAU EICH LLE

---

Ym mis Mai fe wnaethom gyflwyno ein gweminar costau byw cyntaf 'A yw'r argyfwng costau byw ar ben?' lle y cawsom 2 gyflwyniad rhagorol gan Gyngor Tref Blaenafon a Chyngor Cymuned Cwm Darran am sut maen nhw'n gweithio yn eu cymunedau i wynebu heriau lleol a achoswyd gan yr Argyfwng Costau Byw. Diolch i aelodau'r holl gynghorau oedd yn bresennol, a gymerodd ran ac a roddodd adborth.

***Dyma beth ddywedodd pobl oedd yn bresennol yr oeddent wedi'i fwynhau am y gweminar:***

***"Syniadau newydd y gallaf fynd â nhw'n ôl at fy nghyngor"***

***"Llawer o syniadau defnyddiol, perthnasol i wella cyfleusterau ar gyfer ein trigolion"***

***"Enghreifftiau o waith da a wnaed gan 2 gyngor arall"***

Bydd recordiad o'r gweminar ar gael yn yr ychydig wythnosau nesaf ac mae'r holl gyflwyniadau o'r gweminar hwn ar gael ar ein gwefan. website.

**ADNODDAU GWEMINAR**

---




# Rydym yn lansio Fforwm Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru

Buom yn gweithio ar greu cymuned 'Argyfwng Costau Byw' ar gyfer cynghorau gan eich bod wedi dweud wrthym y byddai cyfle i gysylltu gyda'ch gilydd ar rai materion/testunau yn rhywbeth y byddech yn elwa ohono

Grŵp Facebook, llecyn ar-lein, lle y gall Cynghorau Cymuned a Thref ddod at ei gilydd i rannu arfer gorau, gofyn cwestiynau, a chael help a chyngor ar faterion yn effeithio ar eich cymunedau ynghylch yr Argyfwng Costau Byw. Bydd Tîm Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru hefyd yn rhannu canllawiau, blaen gyfeirio a darparu adnoddau yn y fforwm hwn.

**YMUNWCH Â'R FFORWM FACEBOOK**

Ym mis Gorffennaf testun ein gweminar yw **‘Ymgysylltu & Gwasanaethau Ieuenctid’** ac rydym yn awyddus i glywed gan gynghorau sydd wrthi’n helpu darparu gwasanaethau ieuenctid cymunedol a/neu sydd wedi gwneud gwaith ymgysylltu gyda phobl ifanc yn lleol. Hoffem glywed am eich gwaith a rhoi cyfle ichi rannu eich profiadau gyda chydweithwyr mewn cynghorau eraill.

**Emma, Angela & Vanessa**

**Un Llais Cymru: Tîm Argyfwng Costau Byw**

**CoLC@onevoicewales.wales**


**Un Llais Cymru**

24c Stryd y Coleg

Rhydaman
SA18 3AF



Unsubscribe



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government



SENT BY mailer lite